# Golygyddol – Ehangu Gorwelion ar gyfer Ymchwil, Polisi ac Ymarfer Addysgol yng Nghymru

Enlli Thomas*, Gary Beauchamp** a Tom Crick***
*Prifysgol Bangor (enlli.thomas@bangor.ac.uk)
**Prifysgol Metropolitan Caerdydd (gbeauchamp@cardiffmet.ac.uk)
***Prifysgol Abertawe (thomas.crick@swansea.ac.uk)

Yn y pum mlynedd diwethaf, mae *Cylchgrawn Addysg Cymru* wedi ei drawsnewid ar lawer cyfri gan ehangu ei gwmpas, ei gyrhaeddiad a'i effaith (Crick, Thomas a Beauchamp, 2023). Rydym wedi llwyddo i drosglwyddo i blatfform sy'n gyfan gwbl ar-lein (Janeway) er mwyn hwyluso prosesau cyflwyno ac adolygu a darparu cartref hygyrch i'n cyhoeddiadau. Rydym wedi ehangu ein fformatau cyhoeddi i gynnwys erthyglau ymchwil traddodiadol llawn a chasgliadau *Ffocws ar Ymarfer*[1] gyda recordiadau o'r *WJE Podcast*[2], sef cyfweliadau byr rhwng y tîm Golygyddol a'r awduron, yn cyd-fynd â'r rhain. Rydym wedi cyflwyno adran *Adnoddau*[3] wedi'i diweddaru, sy'n arddangos amrywiaeth o ddulliau ymchwil ac yn cynnig canllawiau ar sut i baratoi erthyglau *Ffocws ar Ymarfer*. Bellach, rydym hefyd wedi coladu a chategoreiddio erthyglau yn ôl pwnc i gyd-fynd â *Meysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm newydd i Gymru* – ymhlith themâu allweddol eraill ar draws ymchwil, polisi ac ymarfer addysgol – er mwyn gwella hygyrchedd a dealltwriaeth o'r corff cynyddol o wybodaeth a thystiolaeth sy'n sail i'r meysydd hyn.

Fel y pwysleisiwyd yn ein llith Olygyddol gyntaf fel tîm newydd o olygyddion yn 2021 (Beauchamp, Crick a Thomas, 2021), ein nod oedd cefnogi amcan Llywodraeth Cymru i wneud ymchwil addysgol yng Nghymru yn *weladwy a hygyrch i bawb er mwyn*

1 https://journal.uwp.co.uk/wje/site/focus/
2 https://journal.uwp.co.uk/wje/site/podcast/
3 https://journal.uwp.co.uk/wje/site/resources/

*https://doi.org/10.16922/wje.27.2.1cym*

*helpu i ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd* (BERA, 2019: 3). Mae ein data olrhain yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu â'r Cylchgrawn, gyda 12,790 o edrychiadau a lawrlwythiadau ym mis Mehefin eleni yn unig, a'r niferoedd yn tyfu bob mis. Yn yr un modd, mae nifer y dyfyniadau wedi tyfu o flwyddyn i flwyddyn, sy'n dystiolaeth bod mwy a mwy o bobl yn y byd academaidd yn troi at y cylchgrawn a'i gynnwys mwyfwy amrywiol. Yn arbennig felly, nid yw ein darllenwyr wedi'u cyfyngu i Gymru na'r DU yn unig; ers lansio'r fersiwn newydd o'r Cylchgrawn ym mis Mai 2021, rydym wedi cael lefelau uchel o ymweliadau â'r wefan (a lawrlwythiadau dilynol) o'r Unol Daleithiau (86,689), Tsieina (60,576), yr Almaen (14,631), Canada (5,366), Brasil (4,999), Iwerddon (3,449), Singapore (3,013), Awstralia (2,676) a Ffederasiwn Rwsia (2,185) yn ogystal â 60,576 o'r DU. O ystyried yr heriau cyffredin y mae'r byd addysg yn eu hwynebu yn fyd-eang heddiw ar draws amrywiaeth o gyd-destunau ac awdurdodaethau o ran y 'normal newydd' ôl-COVID (gweler: Thomas, Crick a Beauchamp, 2023), pwysau cyllidebol, recriwtio a chadw staff, gostyngiad mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd, absenoldeb ac ymddygiadau heriol ymysg disgyblion, ymhlith anawsterau eraill, ein nod bob amser yw dysgu o gyd-destunau eraill sy'n wynebu problemau tebyg a chyfrannu ein hymchwil i helpu i lywio polisïau a datblygiadau mewn rhannau eraill o'r byd. Yn y rhifyn hwn, fel gyda'r rhai blaenorol, rydym yn parhau i ystyried y cyd-destun polisi addysg ehangach yng Nghymru, yn enwedig wrth i ni arsylwi ar y gwaith parhaus o weithredu'r diwygiadau mawr i'r gyfundrefn addysg (Davies et al., 2024). Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru bellach yn symud y tu hwnt i'r camau cychwynnol tuag at ei weithredu a'i werthuso'n ddyfnach; er bod y Cwricwlwm yn cynnig dull unigryw o gyfannol, wedi'i arwain gan bwrpas, gyda phwyslais ar ddysgu trawsddisgyblaethol a galluogedd dysgwyr, mae heriau gweithredu ar raddfa gynyddol yn dod yn fwy gweladwy (Evans, 2023). Mae ymchwil yn dechrau tynnu sylw at wahaniaethau yn y ffordd y mae ysgolion yn dehongli ac yn gweithredu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd, gan gynnwys cwestiynau ynghylch parodrwydd ar gyfer asesu, llwyth gwaith athrawon, ac argaeledd adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel (Priestley et al., 2025; Estyn, 2025). Rydym yn rhagweld y bydd y materion hyn yn creu tir ffrwythlon ar gyfer gwaith empirig a chysyniadol pellach, yn enwedig ynghylch llunio cwricwlwm, galluogedd ymarferwyr, a swyddogaeth polisi o ran galluogi - neu gyfyngu ar - arloesedd mewn ysgolion.

Dyma'r rhesymau sy'n ein cymell i groesawu ymchwil leol, genedlaethol a rhyngwladol sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr mewn perthynas â llunio polisi ac

ymarfer addysg y presennol a'r dyfodol yng Nghymru a thu hwnt. Efallai fod hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr adolygiad parhaus o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r drefn asesu yn Lloegr, a gyhoeddodd ei adroddiad interim ym mis Mawrth 2025 (Yr Adran Addysg, 2025). Yn wir, gyda mwy a mwy o ddarllenwyr y tu allan i Gymru, ein gobaith yw y gall rhai o'r mentrau sydd wedi tarddu yma yng Nghymru, fel y gwelir yn ein prif erthyglau ac yn ein casgliadau *Ffocws ar Ymarfer*, helpu i gefnogi addysg o ansawdd uchel mewn mannau eraill o'r byd.

Law yn llaw â diwygio'r cwricwlwm, mae trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru yn cynrychioli newid mawr arall mewn polisi. Er bod y diwygiadau'n rhoi'r dysgwr yng nghanol y cynllunio a'r cymorth, a hynny'n hollol briodol, mae sicrhau dull cyson ar draws awdurdodau lleol, lleoliadau ac asiantaethau yn parhau i fod yn her gyson (Conn et al., 2024). Mae galw mawr hefyd am dystiolaeth gadarn ynghylch adnabod yn gynnar, cynlluniau cymorth wedi'u cydgynhyrchu, a'r rhyngwyneb rhwng addysg, iechyd a gofal cymdeithasol (Knight et al., 2024). Mae ymchwilwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY, eu teuluoedd, ac ymarferwyr mewn sefyllfa gref i lywio camau nesaf y daith weithredu (Newton et al., 2025). Wrth i ddiwygiadau ADY groestorri dadleuon ehangach am gynhwysiant, tegwch a dyrannu adnoddau, rydym yn gobeithio y bydd y Cylchgrawn yn gyfrwng allweddol ar gyfer archwilio addewid a thensiynau'r drefn hon wrth iddi esblygu.

Fel y soniwyd mewn rhifynnau blaenorol, nid ysgolion ac addysg lefel orfodol yn unig yw ffocws y cylchgrawn hwn; rydym yn croesawu ymchwil addysgol ar faterion sy'n cael effaith gydol oes, o'r blynyddoedd cynnar i addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes ôl-orfodol. Y tu hwnt i ysgolion, mae newid mawr yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru hefyd. Gyda phwysau rheoleiddiol newydd gan Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru), y dadleuon hallt ynghylch cynaliadwyedd cyllid prifysgolion a'r gyfundrefn gyfan yng Nghymru a ledled y DU, mae prifysgolion yn wynebu dewisiadau strategol cymhleth. Ar yr un pryd, mae addysg uwch yn safle hanfodol ar gyfer addysg athrawon, ymchwil addysgol, a darparu dysgu proffesiynol, ynghyd â bod yn angor allweddol ar gyfer cyswllt dinesig ac effaith economaidd amrywiol trwy lens seiliedig ar le. Felly, rydym yn annog ymgysylltiad beirniadol â'r modd y mae sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru yn addasu i'r pwysau hwn, a beth mae hyn yn ei olygu i drefn ymchwil addysgol a datblygiad y gweithlu yn y dyfodol.

*Gary Beauchamp, Tom Crick ac Enlli Thomas* 

Mae dysgu proffesiynol yn rhan allweddol o'r proffesiwn addysg ac mae'n helpu i gynnal diddordeb ymarferwyr ym mhob lleoliad a chyd-destun addysgol nid yn unig wrth ddysgu gan eraill ond hefyd wrth werthuso ac arsylwi eu hymarfer eu hunain. Ar drothwy cyfnod newydd o ddysgu proffesiynol i athrawon yng Nghymru (OECD, 2025), hoffem annog ymarferwyr i barhau i ymgysylltu â'r cylchgrawn, fel canllaw ar gyfer ymchwil gyfredol ynghylch meysydd sydd o ddiddordeb i'w hymarfer eu hunain ac fel cyfrwng i gyhoeddi eu hymchwil eu hunain fel rhan o'u taith ddysgu barhaus. Mae bod yn addysgwr yn golygu ymrwymiad gydol oes i addysg, nid yn unig fel addysgwr ond hefyd fel dysgwr. Mae *Cylchgrawn Addysg Cymru* yma i wasanaethu anghenion ein hymarferwyr, wrth eu gwaith fel athrawon ac fel dysgwyr.

## Cyfeiriadau


Beauchamp, G., Crick, T. a Thomas, E. (2021). Golygyddol – Addysg fel cenhadaeth genedlaethol: rôl Cylchgrawn Addysg Cymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 23(1). DOI: https://doi.org/10.16922/wje.23.1.1cym

BERA (2019). Dyfodol Ymchwil i Addysg yng Nghymru. Llundain: Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain. Gw. https://www.bera.ac.uk/researchersresources/publications/the-future-of-educational-research-in-wales (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2025).

Conn, C., Hicks, M. a Thomas, D. V. (2024). Datblygiadau mewn addysg gynhwysol ac anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(2), 91–103. DOI: https://doi.org/10.16922/wje.26.2.7cym

Crick, T., Thomas, E. a Beauchamp, G. (2023). Golygyddol: Cysyniadu Addysg yng Nghymru trwy Ddiwygio, Hunaniaeth, Iaith a Hanes. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 25(1). DOI: https://doi.org/10.16922/wje.25.1.1cym

Davies, A., Morgan, A., Connolly, M. a Milton, E. (2024). Addysg yng Nghymru ers datganoli: Tair Ton Polisi, a'r her fawr o ran gweithredu. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(2), 23–38. DOI: https://doi.org/10.16922/wje.26.2.3cym

Estyn (2025). Adroddiad Blynyddol 2023–2024. Gw. https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/ (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2025).

Evans, G. (2023). A new dawn or false hope? Exploring the early implementation of Curriculum for Wales. *Education Inquiry*, 1–15. DOI: https://doi.org/10.1080/20004508.2023.2297506

Knight, C., Lowthian, L., Crick, T., Jones, C., Rees, S. a Rawlings, A. (2024). Quantifying the Impact of Additional Learning Needs Identification in Wales. Bristol Working Paper in Education Series. DOI: https://doi.org/10.5281/zenodo.11489765

Newton, N., Egan, D., Rhys, M., Duggan, B. a Morris, F. (2025). Tegwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 70/2025. Gw. https://www.llyw.cymru/tegwch-chynwysoldeb-yn-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaeth-ansoddol (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2025).

OECD (2025). Constructing Scenarios for the Future of Teaching in Wales. Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Gw. https://www.oecd.org/en/publications/constructing-scenarios-for-the-future-of-teaching-in-wales_2e0ac4e6-en.html (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2025). Priestley, M., Schuler, B., Georgescu, S., Mouroutsou, S., Priestley, A., Rushton, E., Smith, J., Duggan, B., Morris, F. a Sinnema, C. (2025). Cynllunio cwricwlwm ac asesu ac addysgeg yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 73/2025. Gw. https://www.llyw.cymru/cynllunio-cwricwlwm-ac-asesu-ac-addysgeg-yn-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaeth-ansoddol (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2025).

Thomas, E., Crick, T. a Beauchamp, G. (2023). Golygyddol — Rhagweld y "Normal Newydd" Ôl-COVID ar gyfer Addysg yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 25(2). DOI: https://doi.org/10.16922/wje.25.2.1cym

Yr Adran Addysg (DfE) (2025). Curriculum and Assessment Review: interim report. Gw. https://www.gov.uk/government/publications/curriculum-and-assessment-review-interim-report (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2025).